**Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**
**Department for Environment and Sustainable Development**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru

Cc PINS Cymru, EAW, CCW

Ein cyf **:** Our ref CL-01-12
Dyddiad **:** Date   1 Tachwedd 2012

**Cyhoeddi'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd a'i rôl mewn perthynas ag Adolygiadau Cyntaf y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol - Sefyllfa Gynllunio Interim**

Mae gan y system gynllunio rôl yn cefnogi gweithrediad Cyfarwyddeb ddiwygiedig Fframwaith Gwastraff yr UE [Cyfarwyddeb 2008/98/EC]  Mae'r gyfarwyddeb ddiwygiedig yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol i ymdrin â gwastraff yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Gyfarwyddeb yn nodi newid yn y modd yr ystyrir gwastraff, o fod yn faich digroeso i fod yn adnodd gwerthfawr.

Cyhoeddwyd y Ddogfen Strategaeth Gwastraff drosfwaol newydd i Gymru, "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" ym mis Mehefin 2010. Mae'n gosod fframwaith tymor hir ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff yng Nghymru hyd at 2050, gan ystyried y canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae cyflawni amcanion Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn dibynnu ar gyfres o gynlluniau sector gwastraff. Mae'r rhain yn darparu manylion am sut y caiff y canlyniadau, targedau a pholisïau yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff eu gweithredu.

Cyhoeddwyd y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd ar 10 Gorffennaf 2012 ac mae'n arbennig o berthnasol i broses cynllunio defnydd tir. Mae'r Cynllun yn diweddaru'r darlun o'r gofynion seilwaith, mewn perthynas â dewisiadau technoleg a'r opsiwn amgylcheddol cyffredinol gorau ar gyfer deunyddiau gwastraff penodol. Mae'r asesiadau gwastraff yn y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn sefydlu'r angen i drin a gwaredu gwastraff gweddilliol yn ogystal â disgrifio'r symudiad at lefelau uwch o ailddefnyddio ac ailgylchu. Er mwyn cyrraedd nod diwastraff mae angen taro cydbwysedd anodd gan sicrhau bod capasiti digonol i ymdrin â'n sgil-gynhyrchion

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 029 2082 3580
Ffacs • Fax 029 2082 5622
RosemaryF.Thomas@wales.gsi.gov.uk
GTN: 1208 3580

gwastraff yn gallu dod ymlaen yn y tymor byr (i osgoi effeithiau amgylcheddol) mewn ffordd nad yw'n amharu ar gyflawni amcanion tymor hir.

Polisi cynllunio cenedlaethol a Chynlluniau Gwastraff Rhanbarthol

Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer gwastraff yng Nghymru i'w weld yn adran 12.5 Polisi Cynllunio Cymru (Polisi Cynllunio Cymru 2010 Ed 4), Nodyn Cyngor Technegol 21 (Gwastraff) (TAN 21), a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2001, a'r Llythyr Egluro Polisi ar bolisïau gwastraff a cheisiadau cynllunio gwastraff CDU (PCN 04-04).

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn egluro'r polisïau bras sy'n llywodraethu'r broses gynllunio fel y mae'n berthnasol i leihau a rheoli gwastraff. Mae TAN 21 yn rhoi rhagor o fanylion ynglŷn â sut y caiff yr egwyddorion cyffredinol hyn eu cyflenwi ac yn ei wneud yn ofynnol i baratoi Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol, gan osod paramedrau trefniadau rhanbarthol gwirfoddol a disgrifio cwmpas eang y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol a dyrannu angen i awdurdodau cynllunio lleol. Cyhoeddwyd arweiniad pellach i awdurdodau cynllunio lleol ym mis Mai 2004 yn y Nodyn Egluro Polisi sy'n egluro'r meini prawf ar gyfer lleoli cyfleusterau gwastraff ac yn egluro isafswm y gofynion lleoleiddio sydd i'w cynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Unedol.

Cyhoeddwyd cynlluniau gwastraff rhanbarthol (Adolygiadau Cyntaf) rhwng 2007 a 2009 i'r tri Rhanbarth a ddynodwyd yn TAN 21 (De-ddwyrain, De-orllewin a Gogledd Cymru). Ar hyn o bryd, mae strategaethau technoleg a gofodol Adolygiadau Cyntaf y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn darparu gwybodaeth ar y ddau fath o gyfleusterau gwastraff sy'n ofynnol mewn rhanbarth a'r mathau o leoliadau sy'n debygol o fod yn dderbyniol ar gyfer cyfleusterau mewn adeiladau ac yn yr awyr agored, gan gynnwys dosraniadau cymryd tir. Mae'r wybodaeth a geir yn Adolygiadau Cyntaf y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn cael ei gweithredu drwy gynllun datblygu pob awdurdod unigol, gan hwyluso cyflenwi'r amcanion a amlinellir ym mharagraffau 5.4-5.5 TAN 21.

**Diben y llythyr eglurhaol hwn**

Bydd angen adolygu'r gyfres gyfredol o bolisi cynllunio cenedlaethol i adlewyrchu'r cyd-destun polisi gwastraff newydd. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei symud ymlaen drwy ddiwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru (adran 12.5) a TAN 21 ac mae'n debygol o gael ei gwblhau erbyn canol y flwyddyn nesaf. Nid yw Llywodraeth Cymru'n dymuno gweld unrhyw oedi wrth baratoi'r cynllun nac wrth benderfynu ar geisiadau ac am y rheswm hwn fe'i hystyrir yn briodol i ddarparu sefyllfa interim sy'n egluro, cyhyd â bod hynny'n bosibl o fewn cwmpas y polisi cyfredol, rôl barhaus Adolygiadau Cyntaf y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol mewn perthynas â'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd a'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cynllunio lleol. Mae Atodiad 1 i'r llythyr hwn yn crynhoi'r fframwaith polisi gwastraff ac mae Atodiad 2 yn crynhoi'r gwahaniaethau rhwng y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd ac Adolygiadau Cyntaf y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol.

Yn ôl TAN 21 (paragraff 2.11) rhaid i'r Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol gael eu hadolygu bob tair blynedd, fodd bynnag yn wyneb y fframwaith gwastraff cenedlaethol esblygol ni raglennwyd adolygiadau pellach. Bydd sefyllfa'r dyfodol ar gydweithio rhanbarthol yn destun ymgynghori fel rhan o'r adolygiad o Bolisi Cynllunio Cymru a TAN 21. Yn y cyfamser, mae elfennau o Adolygiadau Cyntaf y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol sy'n parhau'n berthnasol ac y dylent gael eu defnyddio o hyd at ddibenion cynllunio.

**Goblygiadau i’r Cynlluniau Datblygu Lleol**

Mae cynlluniau datblygu yn parhau i chwarae rhan bwysig yn hwyluso amcanion yr UE mewn perthynas â rheoli gwastraff drwy sicrhau bod digon o dir yn cael ei ddynodi i hwyluso darparu rhwydwaith digonol ac integredig o gyfleusterau gwastraff.

Mae cyhoeddi’r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn diweddaru’r asesiadau yn Adolygiadau Cyntaf y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol. Fodd bynnag mae’r Opsiwn Rheoli Gwastraff Strategol sy’n tanategu Adolygiadau Cyntaf y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn ffurfio sail ar gyfer symud ymlaen â’r asesiad sydd wedi’i ddiweddaru yn y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd. Er nad yw’r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd ynddo’i hun yn darparu set ddiwygiedig o ffigurau cymryd tir mae’n cynnwys darlun eang o ofynion seilwaith Cymru fel rhan o’r symudiad at lefelau uwch o ailddefnyddio ac ailgylchu, gan gynnwys diweddariad ar gyfrifiadau tirlenwi pob rhanbarth.  Mae’r ymateb cynllunio priodol a geir yn y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd i’r asesiad wedi’i ddiweddaru yn destun ystyriaeth gyfredol ar lefel genedlaethol.

Nid yw Llywodraeth Cymru’n dymuno gweld unrhyw oedi wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, yn enwedig y rhai sydd eisoes ar y cam adneuo neu y disgwylir iddynt gael eu hadneuo, yn ystod y cyfnod o adolygu’r polisi cynllunio cenedlaethol. Felly, yn y cyfamser, gellir ystyried bod yr ystodau cymryd tir yn darparu sail ofodol werthfawr ar gyfer gweithredu egwyddorion eang y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd a dylai awdurdodau cynllunio lleol barhau i’w defnyddio wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol er mwyn hwyluso darparu ystod eang ac amrywiol o seilwaith rheoli gwastraff ac adnoddau. Yn yr un modd roedd y meini prawf lleoliadol a’r wybodaeth am ardaloedd chwilio (gan gynnwys yr offeryn GIS) y cyfeirid atynt yn y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn parhau’n berthnasol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol.

Ni fydd disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol ystyried a oes angen newid polisïau a thargedau mewn Cynllun Datblygu Lleol sydd eisoes wedi’i fabwysiadu i adlewyrchu’r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd hyd nes y cyhoeddir polisi cynllunio cenedlaethol diwygiedig (Polisi Cynllunio Cymru (adran 12.5) a TAN 21).

**Goblygiadau i benderfyniadau cynllunio**

Nid yw Llywodraeth Cymru’n disgwyl nac yn dymuno gweld oedi o ran penderfyniadau am gynigion rheoli gwastraff yn sgil yr adolygiad cyfredol o bolisi cynllunio cenedlaethol. Er mwyn cyflawni cynnydd o ran faint o wastraff sy’n cael ei ddargyfeirio o dirlenwi i ddulliau rheoli amgen, mae’r  Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn glir ei fod yn hanfodol fod seilwaith trin gwastraff gweddilliol yn cael ei gyflenwi’n fuan.

Yng Nghymru, dylid gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â’r cynllun datblygu perthnasol oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Dywed Polisi Cynllunio Cymru y dylai penderfyniadau ar geisiadau cynllunio roi ystyriaeth i’r amcanion rheoli gwastraff sydd yn y strategaeth gwastraff cenedlaethol, y mae’r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn rhan ohono. Felly, ochr yn ochr â pholisïau a dyraniadau mewn cynlluniau datblygu, polisi cynllunio cenedlaethol, y meini prawf lleoleiddio yn Adolygiadau Cyntaf y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill, dylid rhoi ystyriaeth i’r wybodaeth ddiweddaraf yn y Cynllun

Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

Gan gadw'r ystyriaethau ym mharagraffau 3.1 - 3.3 TAN 21 mewn cof, tynnir sylw at adran 2, tabl 33 y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd sy'n nodi isafswm ac uchafswm y bwlch capasiti yn narpariaeth capasiti trin gwastraff gweddilliol nad yw'n dirlenwi. Dylai'r tabl hwn fod yn fan cychwyn i awdurdodau lleol ar gyfer ystyried angen, er y dylid cydnabod nad yw'r tabl ynddo'i hun yn sefydlu capasiti penodol na gofynion cymryd tir unrhyw leoliad penodol. Nid yw'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn gwahardd unrhyw dechnoleg benodol a mater i'r ymgeisydd fydd dangos y dewis o dechnoleg mewn perthynas â thrin ffrwd gwastraff benodol mewn lleoliad penodol. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried pob achos ar ei rinweddau ei hun, gan roi ystyriaeth i natur y datblygiad arfaethedig a'r amgylchiadau sy'n bodoli ar unrhyw adeg benodol sy'n debygol o effeithio ar y capasiti a allai ddod ymlaen yn yr ardal dan sylw.

Yn gywir

ROSEMARY THOMAS

**Prif Gynlluniwr/Dirprwy Gyfarwyddwr**
**Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**

Chief Planner/Deputy Director
Department for Environment and Sustainable Development

**Atodiad 1: Fframwaith Polisi Gwastraff**

Ymhlith yr erthyglau perthnasol yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig mae:

| | |
|---|---|
| Erthygl 1 | sy'n sefydlu'r prif amcan sef gwarchod yr amgylchedd ac iechyd dynol rhag effeithiau niweidiol yn gysylltiedig â chreu a rheoli gwastraff drwy leihau affeithiau a gwelliannau effeithlonrwydd. |
| Erthygl 4 | sy'n diwygio'r hierarchaeth gwastraff. Y dull mwyaf cynaliadwy o reoli gwastraff yw atal gwastraff (mae hyn bellach yn cynnwys ailddefnyddio) ac yna paratoi i ailddefnyddio, ailgylchu, adennill gan gynnwys adennill ynni ac yn olaf, gwaredu. |
| Erthygl 13 | sy'n ofyniad i amddiffyn iechyd dynol a'r amgylchedd |
| Erthygl 16 | sy'n ofyniad i ddarparu rhwydwaith integredig a digonol o osodweithiau gwaredu gwastraff a gosodweithiau ar gyfer adennill gwastraff dinesig cymysg. Dylid cynllunio'r rhwydwaith gan sicrhau ei fod yn cynorthwyo'r symudiad at hunangynhaliaeth a bod gwastraff yn cael ei drin mor agos â phosibl at ei ffynhonnell. |
| Erthygl 28 | sy'n ofyniad i sefydlu cynlluniau rheoli gwastraff a'u hadolygu o leiaf bob 6 blynedd. |

Mae'n ofynnol dan y Gyfarwyddeb Gwastraff Ewropeaidd fod cynlluniau rheoli gwastraff yn cael eu llunio (Erthygl 28, y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig). Dylai'r cynlluniau hyn gynnig dadansoddiad o'r sefyllfa rheoli gwastraff gyfredol. Rhaid iddynt alluogi mapio seilwaith sy'n bodoli ac ystyried y mathau, lleoliad a chapasiti'r seilwaith gwastraff fydd ei angen yn y dyfodol i gwrdd ag ymrwymiadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig gan gynnwys hunangynhaliaeth ac agosrwydd. Dylent fod yn ddigon cywir o ran cwmpas daearyddol a rhaid marcio safleoedd addas ar fap neu eu pennu yn ôl meini prawf lleoliad (dyfarniadau CJEU *Tillieut* a *Biffa*).

Yng Nghymru, mae Cynlluniau Rheoli Gwastraff yn cynnwys:

Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol i Gymru - "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" (ac "Yn Gall gyda Gwastraff" mewn perthynas â pholisïau, targedau a gweithredoedd sy'n barhaus ac nad ydynt wedi'u disodli gan Tuag at Ddyfodol Diwastraff);
Cynlluniau'r Sector Gwastraff (gan gynnwys y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd);
Polisi cynllunio cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 21: Nodyn Egluro Polisi a Gwastraff PCN 04-04);
Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol ar gyfer Gogledd, De-ddwyrain a De-orllewin Cymru (yn ddarostyngedig i gynnwys y llythyr egluro hwn);
Cynlluniau Datblygu (cynlluniau datblygu unedol a chynlluniau datblygu lleol)

Rhaid i Gynlluniau Rheoli Gwastraff gyd-fynd â:

(i) Amcanion trosfwaol y Gyfarwyddeb Gwastraff;
(ii) Yr Hierarchaeth Gwastraff;
(iii) Y gofyniad i warchod iechyd dynol a'r amgylchedd;
(iv) Egwyddorion hunangynhaliaeth ac agosrwydd.

**Atodiad 2: Y Berthynas rhwng y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd ac Adolygiadau Cyntaf y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol**

Mae'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn diweddaru'r darlun o ofynion seilwaith, mewn perthynas â dewisiadau technoleg a'r opsiwn amgylcheddol cyffredinol gorau ar gyfer deunyddiau gwastraff penodol. Mae'r asesiadau gwastraff yn y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn gosod y sefyllfa o ran angen am driniaeth a gwaredu gwastraff gweddilliol yn ogystal â disgrifio'r symudiad at lefelau uwch o ailddefnyddio ac ailgylchu. Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio'n gryno y gwahaniaethau allweddol rhwng Adolygiadau Cyntaf y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol a'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd sy'n berthnasol i'r broses gynllunio a thrwy wneud hynny geisio esbonio'r sefyllfa interim a amlinellir yn y llythyr.

<u>Opsiwn Asesiad Cynaladwyedd a Rheoli Gwastraff Cynaliadwy</u>

Targedau a Rhagamcanion: Roedd yr ymarfer modelu ar gyfer y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn ystyried y targedau ailgylchu a fynegwyd yn Strategaeth Gwastraff blaenorol Cymru "Yn Gall Gyda Gwastraff" gan dybio cyfradd ailgylchu o 50% yn 2013. Nid oedd Adolygiadau Cyntaf y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn rhagfynegi y tu hwnt i 2013 oherwydd ansicrwydd am sgil-gynhyrchion yn y dyfodol ond eto bydd cynigion yn cael eu cyflwyno am seilwaith i ymdrin â gwastraff y tu hwnt i 2013. Felly, er bod y cyfraddau ailgylchu a nodir yn Adolygiadau Cyntaf y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol efallai'n cynrychioli'r hyn sy'n digwydd nawr, nid ydynt yn caniatáu i ni gynllunio ymhellach ymlaen. Mae'r targedau bellach wedi'u disodli gan dargedau newydd uwch a osodwyd yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff.

Roedd y tybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer rhagweld tueddiadau gwastraff yn y dyfodol yn Adolygiadau Cyntaf y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn rhagweld twf cyffredinol mewn sgil-gynhyrchion gwastraff. Oherwydd newidiadau mewn sgil-gynhyrchion gwastraff ers y set data a ddefnyddiwyd ar gyfer yr Adolygiadau Cyntaf ac o ystyried y targedau atal gwastraff a gynigir yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff ac a osodwyd ym mhob Cynllun Sector, mae'r rhagolygon o sgil-gynhyrchion gwastraff a chyfanswm y gwastraff gweddilliol sydd i'w rheoli bellach yn wahanol yn y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd o'i gymharu â'r rhagamcaniadau a roddwyd yn y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol.

Technolegau: Yn y gwaith o fodelu'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol, roedd yr opsiynau rheoli gwastraff a ffafriwyd yn rhoi arweiniad i natur y cyfuniad seilwaith mewn rhanbarth i ymdrin â'r angen dynodedig. Mae'r opsiynau'n cynnig arweiniad i'r technolegau o fewn ystod ffafriol o enillion amgylcheddol. Felly gallai'r cyfuniad terfynol o ddarpariaeth seilwaith mewn Rhanbarth gynrychioli hybrid o nifer o'r opsiynau a gafodd eu modelu, neu yn wir gynnwys elfennau o bob un ohonynt. Mae hyn yn ganllaw gwerthfawr i awdurdodau lleol o ran pa seilwaith sy'n dod â'r enillion amgylcheddol gorau, er bod effaith ystyriaethau eraill yn golygu hyd yn oed os yw opsiwn technoleg wedi'i gynrychioli'n dda o fewn Opsiwn Rheoli Gwastraff Cynaliadwy'r Rhanbarth, nid yw o reidrwydd yn golygu y caiff ei ddatblygu.

Roedd yr ymarfer modelu a wnaed i gefnogi Tuag at Ddyfodol Diwastraff a'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn ystyried ardrawiad opsiynau offer gwastraff gweddilliol dethol gan roi ystyriaeth i'r newid mewn targedau ailgylchu, gwell dealltwriaeth o ddata sgil-gynhyrchion gwastraff a'r angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu sail o dystiolaeth i osod polisi yn y dyfodol ar isafswm effeithlonrwydd offer adennill ynni. Roedd yr opsiwn rheoli gwastraff cynaliadwy a'r gwerthusiad cynaladwyedd a wnaed ar gyfer y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn rhan o sail tystiolaeth ar gyfer datblygu Tuag at Ddyfodol Diwastraff a'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd.

Dangosir perfformiad amgylcheddol perthynol y seilwaith rheoli gwastraff gweddilliol (ac felly ei gynaladwyedd) drwy'r defnydd o'r offeryn asesu cylch bywyd WRATE, sy'n dangos ar gyfer opsiynau rheoli gwastraff gweddilliol, bod eu hardrawiad yn lleihau wrth i effeithlonrwydd y broses gynyddu. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol ar gyfer opsiynau adennill ynni, lle gall mwyhau effeithlonrwydd proses gael effaith fawr ar ei hardrawiad cylch bywyd. Crynhoir canfyddiadau'r asesiad technegol yn y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd.

Ystyriaethau cynllunio gwastraff lleol a rhanbarthol - cymryd tir

Roedd Adolygiadau Cyntaf y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn ymdrin â mater darparu safle drwy ddadansoddiad trefnus o sgil-gynhyrchion, capasiti cyfredol a'r angen i ddarparu rhagor o safleoedd a thrwy hyn datblygwyd nifer o 'Opsiynau Rheoli Gwastraff a Ffafrir' o fewn y Rhanbarth hwnnw.

Roedd gan bob un o'r opsiynau technoleg a ddewiswyd ar gyfer modelu'r Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol gyfuniadau cyfleuster nominal ynddynt, ac amrywiaeth o feintiau cyfleuster. O'r rhain cyfrifwyd cyfrif tir yn nominal, a mynegwyd hyn fel y tir oedd angen ei gymryd yn ôl pob awdurdod lleol. Ychwanegwyd elfen gor-ddarparu i'r ffigurau cyfrifedig hyn er mwyn darparu ardal debygol o dir datblygadwy oedd ei angen ar bob opsiwn i'r awdurdod lleol. Roedd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i wneud darpariaeth ddigonol o dir o fewn eu Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer y cyfryw ddatblygiadau.

Fodd bynnag, mae datblygiadau technoleg dilynol wedi arwain at y potensial i ddatblygu cyfleusterau llai, mwy gwasgaredig (mwy hyblyg, yn gallu manteisio ar gyfleoedd niche). Mae hefyd wedi arwain at bosibilrwydd o ddatblygu cyfleusterau mwy o faint i adlewyrchu arbedion maint a lleihau gwariant busnesau ac awdurdodau lleol ar reoli eu gwastraff gweddilliol. Canlyniad hyn yn y pen draw yw ei bod nawr yn anoddach neilltuo gwerth i 'gyfleuster cyfartalog' - ac o ganlyniad mae cyfrifiadau cymryd tir sy'n seiliedig ar arwynebedd yn debygol o fod yn llai cymwys.

Dull cyffredinol y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd felly fu symud i ffwrdd oddi wrth gyfrifiadau'n seiliedig ar gymryd tir i ddull lle caiff yr angen am gyfleusterau rheoli gwastraff ei fynegi drwy gapasiti'r dyfodol mewn tunelli. Mae adolygiad o'r polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer gwastraff ar waith a bydd yn ystyried sut y dylid trosi'r gofynion a nodwyd yn y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn gynlluniau datblygu lleol.

Mae'r wybodaeth 'Ardaloedd Chwilio' sy'n rhan o Adolygiadau Cyntaf y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn parhau'n offeryn defnyddiol i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddynodi safleoedd sy'n addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff oherwydd edrychwyd wrth ddatblygu ar feini prawf a chyfyngiadau datblygu cyffredinol; mae'r meini prawf lleoleiddio cyffredinol a nodwyd yn y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol hefyd yn parhau'n berthnasol.